# Cynnig i leihau’r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat o fis Medi 2026 ymlaen

## Dogfen Ymgynghori Statudol



Mae’r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ar gais. Mae hi hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain a CD sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, anfonwch e-bost at SustainableCommunitiesForLearning@wrexham.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Adeiladau’r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

# Cynnwys

**Y Cynnig** .......... 4
Cyflwyniad .......... 4
Cefndir a Rhesymeg dros Newid .......... 4
Manylion yr Ysgol yn y Cynnig hwn .......... 4
**Amserlen Dyddiadau Allweddol** .......... 7
**Effaith y Cynnig-Manteision ac Anfanteision** .......... 7
Beth yw'r manteision posib? .......... 7
Beth yw'r anfanteision posib? .......... 7
Lliniaru .......... 8
Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision .......... 8
**Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?** .......... 8
Adnoddau Addysg/Goblygiadau Ariannol .......... 8
Goblygiadau i'r Corff Llywodraethu .......... 9
Goblygiadau Staffio .......... 9
Goblygiadau Cludiant .......... 9
Cynaliadwyedd .......... 9
Cefnogi'r Gymuned .......... 9
Effaith ar ysgolion eraill .......... 9
Ansawdd a Safonau mewn Addysg .......... 10
Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg .......... 11
Risgiau/Dibyniaethau'r Cynnig .......... 11
Opsiynau Amgen a Ystyriwyd .......... 12
**Asesiadau Effaith** .......... 12
Asesiad Effaith Integredig .......... 12
Asesiad Effaith ar y Gymraeg .......... 12
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb .......... 13
Asesiad Effaith Cludiant .......... 13
**Y Broses Ymgynghori** .......... 13
Pwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad? .......... 13
Y Cyfnod Ymgynghori .......... 14
Ystyried eich safbwyntiau .......... 14
Cyfarfodydd Ymgynghori .......... 15
Amserlen Sesiynau Galw Heibio .......... 16
Ymgynghori â Disgyblion .......... 16

Adroddiad Ymgynghori ........ 16
Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol ........ 17
Cyfnod Gwrthwynebu Statudol ........ 17
Penderfynu ar y Cynnig ........ 17
Hysbysiad o'r Penderfyniad ........ 18
**Atodiad A-Effaith ar Ysgolion Cyfagos** ........ 19
Ysgol Gynradd Parc Acton ........ 20
Ysgol Rhosddu ........ 21
Ysgol Gynradd Plas Coch, Wrecsam ........ 22
Ysgol Lôn Barcas ........ 23
Ysgol Gynradd Sirol Gwersyllt ........ 24
Ysgol Alexandra ........ 25
Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras ........ 26
Ysgol Llan-Y-Pwll ........ 27
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam ........ 28
Ysgol Heulfan ........ 29
Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru San Silyn ........ 30
Ysgol Bro Alun, Gwersyllt ........ 31
Ysgol Gynradd Gymunedol Victoria ........ 32
Ysgol Gynradd Hafod y Wern ........ 33

# Y Cynnig

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig canlynol:

**Lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat o 45 i 30 o fis Medi 2026 ymlaen.**

Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynnig arfaethedig hwn, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynnig.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor, a fydd yn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Llun 2 Rhagfyr 2024** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025**.

## Cefndir a Rhesymeg dros Newid

Ar hyn o bryd, mae 20.9% o leoedd yn wag yn ysgolion cynradd Wrecsam a 12.2% o leoedd yn wag yn ysgolion uwchradd Wrecsam (data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2024). Gyda'r disgwyl i niferoedd y disgyblion ledled Wrecsam ostwng yn gyffredinol dros y blynyddoedd i ddod, bydd y gyfran o leoedd gwag ledled y sir yn parhau i gynyddu.

Ochr yn ochr â hyn, pan fydd ysgol yn mynd ychydig tu hwnt i'w Nifer Derbyn Cyhoeddedig, mae angen cyflogi aelod ychwanegol o staff i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau maint dosbarthiadau babanod. Mae hyn yn arwain at gost sylweddol i'r ysgol ac yn ddefnydd hynod aneffeithlon o adnoddau.

Ym mis Mai 2024, ysgrifennodd yr Awdurdod Lleol at bob ysgol i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn lleihau eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Mynegodd tair ysgol gynradd ddiddordeb mewn lleihau eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig:

- Ysgol Gynradd Sirol Parc Acton
- Ysgol Gynradd Sirol Clawdd Wat
- Ysgol Gynradd Sirol Lôn Barcas

## Manylion yr Ysgol yn y Cynnig hwn

Mae Ysgol Gynradd Clawdd Wat wedi'i chofrestru fel ysgol gynradd sirol cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Mae'r ysgol ar Ffordd Clawdd Wat yn ward Garden Village. Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yr ysgol yw 45 o ddisgyblion, a'r ystod oedran yw 3-11 oed.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat |
| **Lleoliad yr Ysgol** | Ffordd Clawdd Wat, Garden Village, Wrecsam. LL11 2TE |
| **Ystod Oedran** | 3-11 |
| **Categori Ysgol** | Ysgol Gynradd Sirol |
| **Cyfrwng Iaith** | Cyfrwng Saesneg |
| **Capasiti Presennol** | 315 |
| **Lleoedd Gwag (Ionawr 2024)** | 54 |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | B (Aseswyd fis Rhagfyr 2022) |
| **Gradd Addasrwydd Adeilad** | B (Aseswyd fis Rhagfyr 2022) |

## Cyfanswm nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y 5 mlynedd diwethaf (data CYBLD)

| Blwyddyn | Cyfanswm y Disgyblion Llawn Amser ar y Gofrestr (ac eithrio disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|
| Ionawr 2020 | 290 | 25 |
| Ionawr 2021 | 285 | 30 |
| Ionawr 2022 | 287 | 28 |
| Ionawr 2023 | 272 | 43 |
| Ionawr 2024 | 261 | 54 |

**Dylid nodi nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion yn y Ddarpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin na nifer y disgyblion yn y Ddarpariaeth ag Adnoddau.*

## Rhagamcanion Disgyblion

| Blwyddyn | Rhagamcanion Cyfanswm y Disgyblion Llawn Amser (ac eithrio disgyblion mewn Darpariaeth ag Adnoddau) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|
| Ionawr 2025 | 248 | 67 |
| Ionawr 2026 | 233 | 82 |
| Ionawr 2027 | 222 | 93 |
| Ionawr 2028 | 215 | 100 |
| Ionawr 2029 | 210 | 105 |

**Dylid nodi nad yw'r data disgyblion uchod yn ystyried disgyblion yn y Ddarpariaeth ag Adnoddau na disgyblion meithrin. Ffynhonnell-CYBLD. Ni ddylid cynnwys nifer y disgyblion meithrin na nifer y disgyblion yn y Ddarpariaeth ag Adnoddau.*

Mae'r ffactorau sydd wedi'u hystyried gan y Cyngor wrth benderfynu ymgynghori ar y cynnig hwn yn cynnwys:

- Gallu parhaus yr ysgol i ddarparu digon o leoedd i blant lleol.

- Darparu’r amgylchedd dysgu mwyaf priodol i bob disgybl i gefnogi gwella ysgolion yn barhaus.
- Cynllunio a rheoli adnoddau ar gyfer y dyfodol.

Rhagwelir y bydd lefel y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Clawdd Wat yn parhau. Nid oes data ar gael i awgrymu y bydd nifer y disgyblion sy’n gwneud cais am le yn yr ysgol yn uwch na 30 yn y blynyddoedd i ddod.
Drwy gyflwyno’r cynnig hwn, bwriad y Cyngor yw mynd i’r afael â’r gostyngiad yn y galw am leoedd ysgol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat drwy leihau Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol o 45 i 30. Mae hyn yn golygu mai nifer y lleoedd fydd ar gael i blant yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2026, a phob cylch derbyn ar gyfer y Dosbarth Derbyn wedi hynny, fydd 30. Yn ogystal, bydd nifer y lleoedd meithrin yn lleihau o 45 o leoedd rhan amser i 30 o leoedd rhan amser.

Byddai’r newidiadau arfaethedig:
- Yn lleihau nifer cyffredinol lleoedd gwag y Cyngor yn ysgolion cynradd Wrecsam.
- Yn cynnig datrysiad priodol i fodloni galw lleol am leoedd ysgol yn yr ardaloedd lle mae’r ysgolion wedi’u lleoli.
- Yn cyfyngu’r effaith ar bob ysgol, yn lleol ac ar draws y sir.
- Yn cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor a strategaeth Cymraeg 2050.
- Yn gwella safonau addysg ac yn yr hirdymor yn dod â budd i bob disgybl yn yr ardal.

Byddai’r cynnig hwn yn mynd i’r afael â’r ffaith bod niferoedd y disgyblion yn lleihau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat. Byddai hefyd yn lleihau lleoedd gwag cyffredinol y Cyngor yn ei ysgolion cynradd, gan ddarparu arbediad refeniw i’r Cyngor.

# Amserlen Dyddiadau Allweddol

Dylech nodi y gallai amserlenni'r ymgynghoriad newid. Mewn achos o'r fath, byddai'r newidiadau'n cael eu cyhoeddi.

| Digwyddiad | Dyddiadau |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori. Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch rannu eich safbwyntiau drwy:<br>• Fynd i'r sesiynau galw heibio (bydd nodiadau'n cael eu cymryd)<br>• Llenwi'r arolwg ar-lein<br>• Anfon llythyr neu e-bost at y Cyngor<br>• Llenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y llyfryn hwn | 2 Rhagfyr 2024 i 24 Ionawr 2025 |
| Cyflwyno'r Adroddiad Ymgynghori i'r Bwrdd Gweithredol | 8 Ebrill 2025 |
| Cyhoeddi Hysbysiad Statudol a dechrau'r Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol | 29 Ebrill 2025 |
| Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dod i ben | 2 Mehefin 2025 |
| Y Bwrdd Gweithredol yn gwneud Penderfyniad Terfynol ar y Cynnig | 8 Gorffennaf 2025 |
| Cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad i'r Ymgyngoreion | Gorffennaf 2025 |
| Gweithredu'r Cynnig | 31 Awst 2026 |

# Effaith y Cynnig-Manteision ac Anfanteision

## Beth yw'r manteision posib?

Bydd y cynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat yn arwain at y manteision canlynol:

- Amgylchedd dysgu mwy penodol, cefnogol ac effeithiol i ddisgyblion.
- Byddai'r adnoddau'n cael eu targedu'n fwy effeithlon, gan leihau'r pwysau ar gyllidebau'r ysgol a staffio.
- Byddai lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig i 30 yn cynorthwyo'r Corff Llywodraethu i ddarparu sefydlogrwydd i'w gwaith cynllunio hirdymor, gan barhau i ddarparu nifer priodol o leoedd i niferoedd y disgyblion sy'n byw yn yr ardal gyfagos yn y dyfodol.
- Lleihad yng nghapasiti dros ben cyffredinol y Cyngor yn ysgolion cynradd Wrecsam.
- Cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor a strategaeth Cymraeg 2050.
- Gwella safonau addysg ac yn yr hirdymor dod â budd i bob disgybl yn yr ardal.

## Beth yw'r anfanteision posib?

- Gallai nifer is o ddisgyblion arwain at ansicrwydd ynghylch swyddi i athrawon a staff.
- Gallai'r galw am leoedd yn yr ysgol gynyddu yn y dyfodol, gan olygu bod yr ysgol yn mynd yn orlawn.
- Efallai na fydd modd i rieni/gofalwyr gael mynediad i'r ysgol o'u dewis.

- Gallai'r gymuned ehangach ystyried bod lleihad yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn rhywbeth negyddol, gan arwain at y gred bod yr ysgol yn dirywio neu mewn trafferth. Gallai hyn effeithio ar enw da'r ysgol o bosib.

## Lliniaru

Mae'r tebygolrwydd y bydd yr ysgol yn mynd yn orlawn yn isel. Bydd y niferoedd yn parhau i gael eu monitro gan y Cyngor, ond mae hyn yn annhebygol oherwydd y gostyngiad yn y galw yn y blynyddoedd diwethaf. Os bydd hyn yn digwydd, bydd meini prawf y Cyngor ar gyfer ymdrin â mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn pennu'r flaenoriaeth.

Byddai'r Cyngor yn ymroddedig i adolygu'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig os bydd y ddemograffeg a'r cyd-destun lleol yn pennu bod angen gwneud hyn yn y dyfodol ar sail ardal eang.

Dylid nodi bod digon o leoedd ar draws yr ardal leol i ateb y galw a ragwelir.

Ni fydd y newid yn effeithio ar unrhyw ddisgybl sydd eisoes â lle yn yr ysgol.

Mae'n annhebygol y bydd effaith andwyol i rieni a disgyblion mewn perthynas â'r gostyngiad yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig. Dylai rhieni/gofalwyr ddal i allu cael mynediad i'r ysgol o'u dewis.

Fel rhan o'r gwaith ymgynghori, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r gymuned i egluro manteision y cynnig ac yn ymdrin ag unrhyw bryderon i liniaru unrhyw ganfyddiad anffafriol o'r ysgol, gan ddangos bod yr ysgol ar lwybr cadarnhaol ymlaen.
Bydd proses ar wahân i ymgynghori â staff yn cael ei chynnal gyda'r holl weithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur mewn perthynas ag unrhyw brosesau ailstrwythuro staff a fyddai'n digwydd o ganlyniad i'r newid.

## Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision

Yng ngoleuni'r manteision a'r anfanteision uchod, mae'r Cyngor o'r farn y bydd manteision hirdymor y cynnig a amlinellir uchod yn gorbwyso unrhyw anfanteision. Bydd unrhyw risgiau posib yn cael eu rheoli'n ofalus a'u lliniaru lle bo modd.

# Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?

## Adnoddau Addysg/Goblygiadau Ariannol

Er mwyn darparu ar gyfer y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion ar draws y sector cynradd, mae ysgolion yn cael eu cefnogi i resymoli eu gweithrediad i adlewyrchu unrhyw ostyngiad yn niferoedd eu disgyblion.

Mae cyllidebau ysgolion yn cael eu llywio gan fformiwla, ac un elfen allweddol sy'n llywio faint mae ysgol yn ei gael yn eu cyllideb yw nifer y disgyblion. Felly, mae'n anochel y bydd gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion a dderbynnir yn golygu gostyngiad yng nghyllideb yr ysgol. Mae bod â Nifer Derbyn Cyhoeddedig realistig ar gyfer yr ysgol yn sicrhau bod dosbarthiadau'n cael eu staffio'n effeithiol ac, yn yr hirdymor, bod yr ysgol yn gallu rheoli ei chyllideb yn effeithiol.

## Goblygiadau i’r Corff Llywodraethu

Ni ddylai fod unrhyw effaith uniongyrchol i’r corff llywodraethu yn yr ysgol dan sylw. Mae’r bwrdd llywodraethu yn gwbl gefnogol o’r cais ac yn cydnabod y manteision niferus.

## Goblygiadau Staffio

Gallai’r cynnig hwn gael effaith ar strwythur staffio’r ysgol. Bydd proses ar wahân i ymgynghori â staff yn cael ei chynnal gyda’r holl weithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur mewn perthynas ag unrhyw brosesau ailstrwythuro staff a fyddai’n digwydd o ganlyniad i’r newid. Byddwn yn ceisio cytundeb gan Gorff Llywodraethu’r ysgol i gymhwyso’r polisi adleoli canolog (fyddai mewn grym ar y pryd) i unrhyw staff y mae’r cynigion hyn yn effeithio arnynt. Bydd safbwyntiau staff yn cael eu hystyried fel rhan o’r broses.

## Goblygiadau Cludiant

Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar gludiant ysgol o ganlyniad i’r cynnig hwn. Dylai unrhyw broblemau cludiant a pharcio gael eu lleddfu, gan greu effaith gadarnhaol i deuluoedd a chymunedau. Ystyrir bod y cynnig felly yn ddichonadwy, heb fawr ddim effeithiau andwyol yn y maes hwn.

## Cynaliadwyedd

Nid yw’r cynnig penodol hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau i adeiladau mewnol nac allanol presennol yr ysgol fel y maent ar hyn o bryd. Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030, bydd prosiectau ysgol sy’n cynnwys adnewyddu neu adeiladau newydd yn defnyddio nodweddion carbon isel, ynni effeithlon ac arloesol er mwyn bodloni gofynion Sero Net Llywodraeth Cymru.

## Cefnogi’r Gymuned

Bydd cynaliadwyedd ein cymunedau dysgu yn y dyfodol yn cael ei gefnogi’n dda os byddwn ni’n gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau addysgol ac yn creu cyfleusterau newydd lle mae eu hangen fwyaf. Ein nod yw darparu man diogel a chynnes i grwpiau cymunedol a gweithgareddau a drefnir yn ein hysgolion, a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau. Rydyn ni’n gweithio’n agos gyda’r tîm sy’n gweithio ar Ysgolion Bro i sicrhau dull cydlynus, gan ddarparu mannau cynhwysol sydd â’r nod o fynd i’r afael â thlodi a gwella llesiant ar gyfer y teuluoedd a’r dysgwyr yn ein cymunedau.

## Effaith ar ysgolion eraill

Mae Atodiad B yn dangos yr effaith bosib ar ysgolion cyfagos, sy’n debygol o fod yn fach iawn. Drwy gyflwyno’r cynnig hwn i leihau’r capasiti yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat, bydd hefyd yn gwneud defnydd da o’r gofod sydd ar gael ac yn cynnig sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a staffio’r dosbarthiadau yn yr ysgol. Ni ddylai’r cynnig hwn arwain at effaith andwyol i ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos (hynny yw o fewn pellter cerdded o ddwy filltir o’r ysgol), gan fod digon o leoedd yn sawl un o’r ysgolion cyfagos yn yr ardal.

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n uchel, bod yr addysgu'n dda, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chefnogi ysgolion i wella ar gyfer plant a phobl ifanc Wrecsam.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Senedd Cymru ond yn derbyn ei gyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Wrth gynnig newidiadau i'r math hwn o ysgolion, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfeirio at adroddiad diweddaraf Estyn ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n deillio o waith monitro perfformiad.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd bennu effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- Safonau/Dysgu
- Llesiant ac Agweddau at Ddysgu
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgol fel bod modd iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Yn dilyn arolygiad, mae Estyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

### Ysgol Gynradd Clawdd Wat

Ym mis **Mai 20218** y cynhaliwyd yr arolygiad Estyn diwethaf yn Ysgol Gynradd Clawdd Wat. Mae'r barnau arolygu a ddyfarnwyd i Ysgol Gynradd Clawdd Wat i'w gweld yn y tabl isod:

| **Maes Arolygu** | **Barn Arolygu** |
|---|---|
| Safonau/Dysgu | Da |
| Llesiant ac Agweddau at Ddysgu | Rhagorol |
| Profiadau Dysgu ac Addysgu | Da |
| Gofal, Cymorth ac Arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Rhagorol |

I gael rhagor o wybodaeth am yr arolygiad a'r ymweliad monitro, dilynwch y ddolen isod i wefan Estyn:

Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru)

Mae dolenni hefyd wedi'u darparu i adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion eraill o fewn dwy filltir o bellter cerdded i'r ysgol:

| Enw'r Ysgol | Dolen i Adroddiad Estyn |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Parc Acton | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Rhosddu | Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Rhosddu 2019 (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd Plas Coch, Wrecsam | Adroddiad arolygu Ysgol Plas Coch 2022 (llyw.cymru) |
| Ysgol Lôn Barcas | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd Sirol Gwersyllt | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Alexandra | Adroddiad arolygu Ysgol Alexandra 2023 (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Llan-y-Pwll | Heb ei harolygu eto |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam | Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair 2019 (llyw.cymru) |
| Ysgol Heulfan | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru San Silyn | Templed Adroddiad Arolygu (llyw.cymru) |
| Ysgol Bro Alun, Gwersyllt | Adroddiad arolygu Ysgol Bro Alun 2022 (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Victoria | Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Victoria 2019 (llyw.cymru) |
| Ysgol Gynradd Hafod y Wern | Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Victoria 2019 (llyw.cymru) |

## Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg

Os gweithredir y cynnig, mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r ysgol yn parhau i gynnal y safonau a'r ansawdd presennol o addysg i'r plant. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar y safon bresennol gyda'r nod o gryfhau a gwella darpariaeth addysgol ar gyfer y plant, gan arwain at ymgysylltiad uwch a mwynhad dysgu ymhlith y disgyblion, ac effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion.

Mae'r ysgol yn sicrhau profiadau dysgu ac addysgu cadarnhaol. Darperir amgylchedd meithringar o ofal, cefnogaeth ac arweiniad i'r disgyblion yn Ysgol Sirol Clawdd Wat.

## Risgiau/Dibyniaethau'r Cynnig

Pe na baem yn ceisio lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig mewn ysgol lle mae gostyngiad cyson yn nifer y disgyblion ar y gofrestr dros gyfnod parhaus mewn modd

rheoledig, mae risg y gallem gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr ysgol mewn perygl o ddod yn annichonadwy yn seiliedig ar y rhagamcan derbyn disgyblion.

Bydd yr holl risgiau posib yn cael eu monitro gan Strategaeth Rheoli Risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam. Drwy fonitro a sicrhau bod ymagwedd gadarn at y risgiau a'r anfanteision uchod, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, athrawon a staff cymorth.

## Opsiynau Amgen a Ystyriwyd

**Opsiwn 1-Cynnal y Status Quo**

Parhau i gefnogi Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat i weithredu yn y trefniadau presennol o ran capasiti a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig.

**Opsiwn 2-Lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Clawdd Wat Lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat o 45 i 30 o fis Medi 2026 ymlaen.**

**Yr Opsiwn a Ffefrir**
Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2.

Diystyriwyd Opsiwn 1 oherwydd:
- Lleihad yn nifer y disgyblion sy'n gwneud ceisiadau am leoedd yn yr ysgol dros gyfnod parhaus.
- Rhagolygon sy'n awgrymu y bydd y tuedd hwn yn parhau.
- Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion wedi effeithio ar gynaliadwyedd addysgol ac ariannol yr ysgol ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

# Asesiadau Effaith

Cynhaliwyd yr asesiadau effaith cychwynnol canlynol fel rhan o'r cynnig hwn, ac mae'r crynodebau isod wedi'u gwireddu. Dogfennau byw yw asesiadau effaith, a gellid eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau effaith.

## Asesiad Effaith Integredig

Cynhaliwyd yr asesiad effaith integredig cychwynnol mewn perthynas ag effeithiau posib ar nifer o agweddau, gan gynnwys Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r adroddiad asesiad effaith integredig yn cyflwyno gwybodaeth a sicrwydd ynghylch sut rydym, wrth wneud penderfyniadau, wedi ystyried ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau o ran deddfwriaeth, blaenoriaethau a strategaethau mewn perthynas â'r cais. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol yn yr asesiad cychwynnol.

## Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Cynhaliwyd Asesiad Effaith cychwynnol ar y Gymraeg mewn perthynas â'r effeithiau posib ar y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cysylltu â'r amcanion canlynol o'r CSGA:

Amcan 1:

*Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Amcan 2:

*Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*

Amcan 7:

*Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg fel pwnc a hefyd addysgu pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg*

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn ceisio archwilio i ba raddau mae'r cynnig yn cefnogi targedau'r CSGA a sut gallai'r cynnig arwain at ehangu neu leihau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Canfu asesiad cychwynnol y bydd y cynnig hwn yn cynorthwyo â'r gwaith o barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith andwyol sylweddol o ganlyniad i'r cynnig hwn i leihau lleoedd disgyblion mewn tair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, ac rydym wedi nodi'r effeithiau cadarnhaol posib ar y Gymraeg a/neu addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd gwaith parhaus mewn perthynas ag amcanion y CSGA yn lleihau ac yn lliniaru unrhyw effeithiau posib i'r cynnig wrth i ni barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor a strategaeth Cymraeg 2050.

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r asesiad effaith cychwynnol wedi awgrymu y bydd effaith gadarnhaol ar y gymuned, yn yr ystyr y bydd modd i'r ysgolion dan sylw ddarparu amgylchedd dysgu mwy penodol, cefnogol ac effeithiol i ddisgyblion. Byddai'r adnoddau'n cael eu targedu'n fwy effeithlon, gan leihau'r pwysau ar gyllidebau ysgolion a staffio, a bydd safonau addysg gwell yn yr hirdymor o fudd i holl ddisgyblion yr ardal.

## Asesiad Effaith Cludiant

Nid yw'r asesiad effaith cludiant cychwynnol wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol ar gludiant ysgol o ganlyniad i'r cynnig. Dylai unrhyw broblemau cludiant a pharcio gael eu lleddfu, gan greu effaith gadarnhaol i deuluoedd a chymunedau. Ystyrir bod y cynnig felly yn ddichonadwy, heb fawr ddim effeithiau andwyol yn y maes hwn.

# Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried er mwyn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddiol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

## Pwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad?

Gofynnwyd i ystod o unigolion am eu safbwyntiau am y cynnig, gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer

- Y Cyrff Llywodraethol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat
- Holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion Ffydd ac ysgolion Arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat
- Aelodau staff yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat
- Cyngor Cymuned Rhosddu
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llyr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS
- Estyn a GwE
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clawdd Wat
- Adran Cludiant Ysgol Cyngor Wrecsam
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Partneriaethau Lleol Cymunedau yn Gyntaf
- Grwpiau Chwarae, Gwarchodwyr Plant, Darparwyr Dechrau'n Deg a Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol Lleol
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr ac mae'r ymgynghoriad ar agor i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.

## Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau **ddydd Llun 2 Rhagfyr 2024** a bydd yn dod i ben **ddydd Gwener 24 Ionawr 2025.**

## Ystyried eich safbwyntiau

Mae sawl ffordd y gallwch gyfleu eich safbwyntiau i ni, gan gynnwys:

- Anfon y ffurflen ymateb amgaeedig i'r cyfeiriad a ddarperir isod:
- Anfon eich safbwyntiau drwy e-bost i: WatsDykeConsultation@wrexham.gov.uk

Fel arall, gallwch gyflwyno eich safbwyntiau yn ysgrifenedig i: Ymgynghoriad Ysgol Gynradd Clawdd Wat, Addysg, Adeiladu'r Goron, 31, Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG.

Oherwydd nifer yr ymatebion rydym yn eu cael wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fydd modd i ni gydnabod ymatebion ysgrifenedig na gohebu â'r phartïon â diddordeb yn ystod nac ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd y themâu allweddol, gydag enghreifftiau o sylwadau a waned, ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion gwneud penderfyniad ac ymatebir iddynt drwy gyhoeddi adroddiad ôl-ymgynghori.

Nodwn yn garedig na fydd sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.

## Cyfarfodydd Ymgynghori

Gallech hefyd ddod i'n gweld yn y sesiynau galw heibio a fydd yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y sesiynau hyn, bydd modd i chi siarad â swyddogion o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau.

Dylech nodi y gallai amserlenni'r ymgynghoriad newid. Mewn achos o'r fath, byddai'r newidiadau'n cael eu cyhoeddi.

## Amserlen Sesiynau Galw Heibio

